

Diweddariad ar werthiannau trwyddedau pysgota â gwialen (Hydref 2018)

Cefndir

Mae gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau penodol mewn perthynas â genweirio yng Nghymru yn Adran 25 o Ddeddf Pysgodfeydd Eogiaid a Dŵr Croyw 1975, sy'n cynnwys darpariaethau ar gyfer gweithredu system drwyddedu a gosod tollau.

Mae'r llywodraeth yn trin incwm o drwyddedau pysgota â gwialen fel 'treth wedi'i neilltuo' a rhaid ei wario ar y gweithgaredd y cafodd ei godi drwyddo.

Yn bennaf, mae incwm o drwyddedau'n cael ei wario ar orfodi deddfwriaeth pysgodfeydd, gwirio trwyddedau pysgota â gwialen a physgota â rhwyd, gwelliannau i bysgodfeydd, monitro, ymchwil, darparu cyngor, a chysylltu ag amrediad eang o randdeiliaid, gan gynnwys rhedeg wyth grŵp pysgodfeydd lleol ledled Cymru.

Gwerthiannau trwyddedau pysgota â gwialen

Rheolir y gwasanaeth gwerthu a gweinyddu trwyddedau pysgota â gwialen yng Nghymru ar ein rhan gan Asiantaeth yr Amgylchedd o dan gytundeb ffurfiol. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn trosglwyddo'r holl incwm a enillir drwy werthiannau yng Nghymru i Cyfoeth Naturiol Cymru (gyda'r ffioedd gweinyddu safonol wedi'u tynnu, a oedd tua £85,000 yn ystod 2017/18).

Mae gwerthiannau trwyddedau pysgota â gwialen wedi bod yn gostwng yng Nghymru yn ystod y blynyddoedd diwethaf, o 57,000 o drwyddedau yn 2012 i 47,000 yn 2017 – gostyngiad o 17%. Yn ystod yr un cyfnod, gostyngodd incwm o £36,000 neu 3% (gwnaeth tollau uwch yn 2017 helpu i gynnal lefelau o incwm, er bod cymharu'n uniongyrchol â blynyddoedd blaenorol yn broblemus, oherwydd cyflwyno cynhyrchion newydd megis y drwydded 365 diwrnod, trwydded am ddim ar gyfer pysgotwyr iau, a thrwydded tair gwialen, a newidiadau posibl i arferion prynu genweirwyr).

Ystyrir bod y drwydded am ddim ar gyfer bysgotwyr iau yn 2017 wedi bod yn llwyddiant, gyda'r trwyddedau a roddwyd i bysgotwyr iau yng Nghymru yn cynyddu 40% yn 2017 (dros 1,000 o drwyddedau) o gymharu â'r flwyddyn flaenorol.

Gwerthiannau yn 2018/19 hyd yn hyn

Ond pryder mwy yw'r ffaith fod gwerthiannau trwyddedau wedi bod yn gostwng eleni, er bod y rhesymau dros hyn yn gymhleth ac mae'n bosibl eu bod yn ymwneud â thywydd gwael, digwyddiadau chwaraeon megis Cwpan y Byd, a phryderon ynghylch is-ddeddfau newydd, yn ogystal â newidiadau i arferion prynu. Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymchwilio i'r mater olaf drwy ymchwil i'r farchnad gyda grŵp cynrychiadol o enweirwyr.

Mae cyfanswm y gwerthiannau yng Nghymru tua diwedd mis Medi 2018 yn 16% yn is na'r un cyfnod yn 2017. Mae hyn yn cyfateb i 7,300 o drwyddedau yn llai yn cael eu rhoi a gostyngiad i incwm o £150,000.

Mae trwyddedau pysgod bras a brithyllod wedi gostwng 16% (-13% yn Lloegr) a thrwyddedau salmonidau ymfudol wedi gostwng 21% (-9% yn Lloegr).

Beth nesaf?

Bydd Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymchwilio ymhellach i arferion prynu yn dilyn cyflwyno cynhyrchion newydd yn 2017, i geisio penderfynu sut y gallai hyn effeithio ar werthiannau rhwng blynyddoedd. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd yn ymgynghori yn 2019 ar dollau newydd a chynhyrchion newydd posibl yn 2019, gyda golwg ar gyflwyno'r rhain ym mis Ebrill 2020 yn amodol ar dderbyn cymeradwyaeth gan Lywodraeth Cymru a DEFRA.

Bydd y diffyg incwm ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2018, o gymharu ag amcangyfrifon cyllidebu, yn cael ei reoli'n fewnol. Gan weithio gyda phartneriaid, mae'n bosibl y bydd cyfleoedd i gynyddu gweithgareddau marchnata trwyddedau pysgota â gwialen, yn ogystal â hyrwyddo genweirio a physgodfeydd yng Nghymru yn amodol ar argaeledd adnoddau. Mae grŵp partneriaeth sy'n cynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid megis Angling Cymru a Chwaraeon Cymru bellach wedi cael ei sefydlu i ymchwilio i'r opsiynau.

Nifer y trwyddedau pysgota â gwialen a werthwyd yng Nghymru (2013–2017)

	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Brithyllod a physgod bras	50,079	49,759	48,883	49,080	47,734	41,321
Eogiaid a brithyllod y môr	6,795	6,317	5,749	5,660	5,514	5,386
Cyfanswm	56,874	56,076	54,632	54,740	53,248	46,707

Incwm o werthiannau trwyddedau pysgota â gwialen yng Nghymru (2013–2017)

	2012	2013	2014	2015	2016	2017
Brithyllod a physgod bras	£817,078	£792,075	£773,258	£780,443	£760,165	£835,505
Eogiaid a brithyllod y môr	£348,331	£324,487	£299,740	£292,383	£282,355	£293,468
Cyfanswm	£1,165,409	£1,116,562	£1,072,998	£1,072,826	£1,042,520	£1,128,973

Gwerthiannau trwyddedau ar gyfer pysgotwyr iau yng Nghymru (2012–2017)

	2012	2013	2014	2015	2016	2017 (am ddim)
Brithyllod a physgod bras	4,084	3,472	2,950	2,635	2,244	2,814
Eogiaid a brithyllod y môr	654	533	378	340	308	738
Cyfanswm	4,738	4,005	3,328	2,975	2,552	3,552